

Cofnodion Cyfarfod 12 Mehefin 2012 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 o'r gloch.

YN BRESENNOL

Ken Brown
Lena Ashley
Siân Gwenllïan
Pat Jones

Daniel Williams
Hywel Vaughan Jones
Iestyn Harris
Gareth Griffiths

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Mehefin y Cyngor. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:

Ymddiheuriadau Eluned Owen a George Smith

1.2 Croesawyd PCSO Ian Rooksby i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i annerch y Cyngor.

1.3 Cyflwynodd y Swyddog ei hun i'r Cyngor gan ymadrodd ar faterion cyffredinol cyfoes oedd yn codi ofnau ar y cyhoedd sef galwadau oer gan weithwyr ffug. Dywedodd bod cynllun ar y gweill yn ardal Conwy lle'r oedd ardaloedd gwahardd galwadau oer. Gofynnodd i'r aelodau os byddai menter o'r fath o fudd i'r ardal.

1.4 Awgrymwyd Tan y Maes fel ardal. Awgrymwyd hefyd bod ymweliad yn cael ei wneud a Clwb yr Henoed i godi ymwybyddiaeth o'r broblem.

1.5 Dywedodd bod cynlluniau newydd yn codi o hyd a bod cynllun codi ymwybyddiaeth o broblemau mewn ardaloedd drwy'r rhyngwyd wedi cychwyn.

1.6 Gofynnodd a allai fod o help, neu os oedd angen iddo fod yn ymwybodol o broblemau o fewn y pentref.

1.7 Cyflwynwyd iddo dau fater, Defnydd o ffônau symudol ac yfed ar wal y traeth gyda'r nos wedi'r Carnifal.

1.8 Dywedodd y Swyddog byddai yn gofyn i'w gydweithwyr yn yr adran draffig i edrych ar y mater o ddefnyddio ffônau symudol wrth yrru ac iddynt gofio am yr ardal pan fydd ymgyrchoedd neilltuol wedi eu trefnu. Byddai hefyd yn edrych allan am broblemau yfed ar ddiwedd yr Wyl a gweld pa bwerau oedd ar gael iddo i'w defnyddio.

1.9 Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei barodrwydd a rhoi o'i amser i gyfarfod a'r Cyngor.

2.0 DATGAN DIDDORDEB

Dim

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 8 O Fai 2012.

Gofynnwyd i'r Clerc arall eirio rhan o'r cofnodion a'u cyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2012.

3.2 Cyflwynwyd Cofnodion 22 o Fai 2012

Cynigiodd y Cynghorydd Iestyn Harris, ac eiliwyd y Cynghorydd Hywel V Jones i dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, llofnodwyd y cofnodion.

4.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

4.1 Adroddodd y Cynghorydd Iestyn Harris bod cyfarfod wedi ei gynnal a'r adeiladwr.

4.2 Nid yw'r Pwyllgor Rheoli'r Neuadd wedi cyfarfod hyd yma, gobeithir trefnu cyfarfod yn fuan er mwyn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

4.3 Mae ymholiad wedi dod i law ynglŷn â defnyddio'r neuadd ar gyfer parti dyweddïo. Mae blaendal o 10% yn ddyladwy wrth sicrhau dyddiad a'r gweddill ar y diwrnod. Mae sgôp i wneud mwy o ddefnydd o'r neuadd i sicrhau incwm. Angen edrych ar gynllun marchnata ar ei chyfer.

Cynghorydd Iestyn Harris i alw Cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli.

4.4 Dywedodd y Cadeirydd bod y gwaith trydan wedi ei gwblhau gan Owen & Palmer ond bod y gwaith cynnal a thrwsio yn parhau heb ei wneud.

Y Cadeirydd i gysylltu â'r adeiladwr.

4.5 Mae cais am iawndal wedi ei dderbyn yn dilyn damwain i drigolyn oedd wedi mynychu achlysur yn y neuadd.

4.6 Trafodwyd y mater ac awgrymwyd bod y llythyr yn cael ei anfon ymlaen at gwmni'r yswiriant am sylw.

Y Clerc i anfon y llythyr ymlaen at y cwmni Yswiriant am sylw.

5.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

5.1 Nid oedd y Swyddog ariannol wedi derbyn Mantolen oddi wrth y Banc am y mis er hynny cyflwynodd y Swyddog Ariannol, Wynne Barton y gwariant a'r adroddiad ariannol ddrafft.

- 5.2 Nid oedd grant am wariant ynglŷn â'r fflam Olympaidd wedi ei dderbyn hyd yma ond tybia byddai yn ei dderbyn maes o law

6.0 GOHEBIAETH

- 6.1 Cyflwynwyd yr ohebiaeth i'r Cyngor gan y Clerc, gwybodaeth oedd mwyafrif o'r ohebiaeth;
- 6.2 Adolygiad Etholaethau yng 2013 - Cynigion Cychwynnol; roedd y Cyngor yn cael ei hysbysu o'r ba bwynt o fewn y broses mae'r ymgynghoriad ar hyn o bryd.
- 6.3 Cylch Meithrin y Felinheli – Yn diolch am gefnogaeth ariannol oddi wrth y cyngor.
- 6.4 Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Ffordd Helen a Lon Gwelfor; yn datgan bod yr adran yn ymwybodol o gyflwr y ffordd a'r wal gynnal ond nid oedd yn annogel, byddent yn monitro'r sefyllfa.
- 6.5 Clwb Ieuenctid Y Felinheli – gwneud cais am estyniad i dymor y clwb. Heb dderbyn ymateb ysgrifenedig oddi wrth y gwasanaeth ieuenctid ond wedi derbyn ar lafar bod angen i gais gael ei wneud mewn pryd i sicrhau cyllid, y cais heb gyrraedd mewn pryd.
- 6.6 Dennis Roberts - Placiau - Cynigion o adeiladau lle gellir codi placiau.
- Y Clerc i anfon at Dennis Roberts yn datgan bod y Cyngor yn trafod codi plac ar Maes Elim, Tai Eryri gyda Rheolwyr Tai Eryri.**
- 6.7 Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd – Arhosfan Bws ger Nant y Garth – yn datgan nad oedd modd gosod bin mewn arhosfan fws wledig ond bydd yr adran yn sicrhau ymweliad ar safle i godi sbwriel fel bo angen.
- 6.8 Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd – Binau Ailgylchu – Steffan Jones yn datgan ei fod am drafod y mater a Swyddogion Antur Waunfawr.

7.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

- 7.1 Nid yw'r Clwb Garddio Bellach yn dylifo'r potiau blodau felly bydd angen cymorth aelodau'r Cyngor i ddylifo'r blodau.

8.0 CAIS CYNLLUNIO

- 8.1 Derbyniwyd dau gais gynllunio:.
- 8.2 Ystyriwyd cais rhif C12/0603/20/CR – addasiad mewnol i dŷ anedd Llanfair Hall Caernarfon LI55 1TT.
- 8.3 Ni chafwyd gwrthwynebiad.
- 8.4 Ystyriwyd cais rhif C12/0747/20/TR – ail gyfeirio gwifren drydan ger Drws y Coed Tan y maes.

8.5 Ni chafwyd gwrthwynebiad

9.0 NEUADD YR EGLWYS

9.1 Dim i'w hysbysu.

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1 Adroddwyd bod y gwair wedi ei dorri yn y fynwent ond bod y gweithwyr wedi ei adael ar y ddaear. Mae'r contractwr wedi ei hysbysu o hyn a chais wedi ei wneud iddo ei godi ar unwaith.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Cyflwynwyd amcan bris o £396 (yn cynnwys TAW) oddi wrth adeiladwyr lleol am y gwaith o gynnal a thrwsio wal y maes parcio.

11.2 Derbyniwyd yr amcan bris fel un rhesymol.

Y Clerc i gysylltu â'r adeiladwr bod yr amcan bris wedi ei dderbyn.

11.3 Nid yw cyfarfod a Mr Horrocks wedi ei drefnu hyd yma.

11.4 Safle Moriah - Y Cyngor wedi derbyn llythyr yn cyflwyno amodau cytundeb derbyn cyfrifoldeb am y safle. Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â'r mater ac roedd pawb yn gytûn i dderbyn.

Y Clerc i anfon at John Roberts Uwch Syrfêwr Stadau Cyngor Gwynedd i ddatgan hyn.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 Nid oedd George Smith yn bresennol i roi adroddiad ynglŷn â llwybr gyferbyn a Garddfon.

12.2 Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod a Gareth Roberts ynglŷn â llwybrau cyhoeddus y pentref ynghyd a datblygu taflen teithiau cerdded.

12.3 Awgrymodd y Cadeirydd bod Gareth Roberts yn cael ei wahodd i annerch y Cyngor yng nghyfarfod mis Gorffennaf ac yna wedi ystyried ei syniadau gwahodd Dafydd Einion Jones i gyfarfod y Cyngor ym mis Medi i drafod ariannu unrhyw brosiectau sy'n dilyn.

Derbyniodd y Cyngor yr awgrym; y Clerc i wahodd Gareth Roberts i gyfarfod mis Gorffennaf a Dafydd Enion i gyfarfod mis Medi.

12.4 Cysgodfan bws Cerrig yr Afon - dywedodd Siân Gwenllïan nad oedd modd gwneud gwaith "etching" ar y ffenestri.

13.0 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

13.1 Adeiladu 54 o dai ger Drws y Coed –

- 13.1.1 Roedd y cais cynllunio gerbron pwyllgor Cynllunio'r Sir y Nos Lun canlynol, roedd y cyfarfod wedi ei drefnu yn Siambr y Cyngor Dolgellau.

13.2 Tawelu Traffig ochr Bangor i'r Pentref

- 13.2.1 Roedd wedi derbyn cais am fesuriadau tawelu cyflymder traffig ochr Bangor i'r Pentref. Roed Ochr Caernarfon eisoes wedi derbyn triniaeth a thybïai bod angen yr un mesuriadau o'r cyfeiriad arall

Y Clerc i wneud cais at Adran Draffig Cyngor Gwynedd am Fesurau Tawelu traffig i ochr Bangor i'r pentref.

13.3 Kiosk

- 13.3.1 Dywedodd bod Kiosk rhestredig ger y Dafarn Halfway mewn cyflwr drwg ofnadwy a'i bod wedi derbyn gohebiaeth gan drigolyn yn gwneud cais iddo gael ei dynnu i lawr.
- 13.3.2 Dywedodd Wynne Barton bod wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth BT yn dweud eu bod yn disgwyl rhannau iddo a bod diffyg eu cael oherwydd oed y kiosk.

14.0 CYFETHOL TRI CHYNGHORYDD

14.1 Cafwyd 3 enw: Nerys John, Bethan Jones a Louise Hughes.

14.2 Cyfetholwyd y tair i'r Cyngor.

15.0 UNRHYW FATER ARALL

15.1 Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi derbyn pris am yswiriant i'r Cyngor, roedd gostyngiad yw cael os byddai'r cyngor cytuno i 3 neu 5 mlynedd o gyfnod.

15.2 Cytunodd y Cyngor i dderbyn cyfnod o 3 mlynedd.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:45 o'r gloch yn yr hwyr.

Llofnod: Dyddiad:.....